# BEIBL 1588

At y Golygydd,

YN RHIFYN 29 rhestrais yr unigolion hynny sy'n berchen copi o Feibl 1588. Dylaswn fod wedi cynnwys fy enw fy hunan. Hefyd, trwy gyfrwng y rhaglen deledu 'Hel Straeon' daeth copi arall i'r fei, sef copi Mr a Mrs Wyn Jones, Tyn-braich, Dinas Mawddwy.

Y mae fy nghopi i ac eiddo Mr a Mrs Jones yn gopïau pur dda ond anghyflawn. Ni wn i, felly, am fwy na saith copi sydd y tu allan i lyfrgelloedd a sefydliadau.

Cefais gadarnhad nad oes copi yn Llyfrgell Eglwys Gadeiriol, Henffordd ond y mae copi o Destament 1567 yno. Dywed y catalogau fod copïau o Feibl 1588 ym meddaint:

Y Llyfrgell Brydeinig Llundain
Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt
Llyfrgell Gyhoeddus Efrog Newydd
Llyfrgell Pierpont Morgan, Efrog Newydd
Llyfrgell Bodleian, Rhydychen,
Llyfrgell John Rylands, Manceinion
Prifysgol Harvard
Cymdeithas Hanes Pennsylvania

Dafydd Wyn Wiliam
Bodedern

# HERALD HEDD

At y Golygydd,

MEWN cyfarfod diweddar o bwyllgor gwaith Cymdeithas y Cymod, tynnwyd ein sylw gan Dewi Thomas, Rhydaman, nad oes casgliad cyflawn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru o'r cylchgrawn '*The Herald of Peace*'. Yr unig rifynnau sydd yno yw rhai 1868 a 1869.

Eleni, ar Awst 20fed yn Nhregaron, byddwn yn cofio am Henry Richard, Apostol Heddwch, ar achlysur canmlwyddiant ei farw, a'n teimlad fel Cymdeithas yw y dylwn geisio, o leiaf, sicrhau copïau o'r casgliad cyfan i'w cyrchu i'r Llyfrgell Genedlaethol ym mlwyddyn y dathliad.

Felly, os oes unrhyw un o ddarllenwyr *Y Casglwr* yn berchen casgliad cyflawn neu hyn yn oed rai o'r rhifynnau ar wahan i'r ddau a nodir uchod, ac yn barod i'w rhoi neu eu gwerthu am bris rhesymol i Gymdeithas y Cymod yng Nghymru ar gyfer eu trosglwyddo i'r Llyfrgell, dylid cysylltu mor fuan a phosib â mi.

Nia Rhosier
2 Oak Mews,
Heol y Dderwen, Llangollen.

# ALAW DDU – o'r pwll at y gân

## RHIDIAN GRIFFITHS yn cofio

DYWEDIR fod pla'r canmlwyddiannau wedi disgyn ar Gymru eleni, a hwyarch y dylwn grefu maddeuant y darllenydd am ychwanegu at y rhestr o ddathliadau. Ond gan ein bod yn troi ein golygon i gyfeiriad Gwent lle bu un o gerddorion amlwg a dylanwadol ei gyfnod yn byw am ysbaid byr, nid wyf yn ymddiheuro am tynnu sylw at ganmlwydd a hanner geni Alaw Ddu.

Ym Mhwll-y-glaw ger Cwmafan y ganed William Thomas Rees 29 Medi 1838, yn fab i rieni o Drelales. Pan oedd yn dair ar ddeg oed symudodd i Aberdâr i weithio yn y pwll glo ac yn y dre honno y dechreuodd ymddiddori mewn cerddoriaeth.

Porthwyd ei ddiddordeb gan ddyfodiad Ieuan Gwyllt i'r lle yn 1858, a thystiai ymhen blynyddoedd iddo fod yn y cwrdd canu yn Aberdâr ddechrau 1859 pan lansiodd Ieuan ei **Lyfr Tonau Cynulleidfaol** a rhoi'r gymanfa ganu ar ben ei ffordd.

Manteisiodd hefyd ar y gwersi a gynigiai Ieuan yn **Y Cerddor Cymreig** yn y chwedegau, ac yn 1879 enillodd wobr eisteddfod Llanberis am draethawd ar fywyd a gwaith ei arwr.

* * *

BU ALAW DDU (ai lliw ei wallt a'i farf a roddodd iddo'i ffugenw?) yn byw yn y Dinas ac ym Mhont-y-pridd cyn symud yn 1868 i Aber-carn i swydd yng ngwasanaeth Arglwyddes Llanofer, 'Gwenynen Gwent'. Roedd hi a'i gŵr wedi codi eglwys Gymraeg yn Aber-carn yn 1854, ond daethai'r lle yn 1862 yn eiddo'r Methodistiaid Calfinaidd.

Yn yr un flwyddyn ag y daeth yr Alaw i Aber-carn sefydlwyd yn weinidog ar yr eglwys y pregethwr cerddgar David Saunders; daeth Alaw Ddu yn arweinydd y gân a bu'r ddau yn ffrindiau ac yn gyd-fyfyrwyr mewn pethau cerddorol.

Yna tua diwedd 1869 symudodd Alaw Ddu i Lanelli, ac yno y treuliodd weddill ei yrfa tan ei farw yn 1904.

Bu'n arweinydd canu ym Mhont-y-pridd ac mewn tri chapel yn Llanelli yn ogystal ag yn Aber-carn. Cystadlodd yn frwd ac yn llwyddiannus trwy'r chwedegau a'r saithdegau: yn eisteddfod Conwy yn 1879 dyfarnwyd iddo gadair am waith i gôr a cherddorfa. Cyhoeddwyd rhanganau ac anthemau o'i waith yn **Y Cerddor Cymreig** ac ar wahân, a bu tipyn o fynd ar ddarnau corawl fel 'Y Gwlithyn'.



*ALAW DDU*

Yn Llanelli sefydlodd y gymdeithas Ffilharmonig er mwyn perfformio cyfanweithiau'r meistri, ac yn sgîl hynny ffurfiodd gerddorfa. Codi safon cerddoriaeth offerynnol yng Nghymru oedd testun ei draethawd buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain yn 1887.

* * *

UN YN unig o'i gyfansoddiadau sydd wedi byw, sef yr emyn-dôn 'Glanrhondda', a gyfansoddodd yn ŵr ifanc. Efallai fod ei wir bwysigrwydd yn gorwedd yn hytrach yn ei waith fel golygydd ac athro; yn hyn o beth ef a D. Emlyn Evans oedd etifeddion Ieuan Gwyllt.

Bu'n gyd-olygydd **Yr Ysgol Gerddorol** o 1878 i 1880 ac yn olygydd cerdd i **Cyfaill yr Aelwyd** o 1880 i 1884. Yna yn 1883, cychwynnodd gylchgrawn dylanwadol dan y teitl **Cerddor y Cymry** a gyhoeddwyd o Lanelli gan D. Williams a'i Fab.

Yn y misolyn hwn, a barhaodd tan 1894, rhoddwyd pwyslais amlwg ar helpu cerddorion ifainc trwy osod tasgau, trefnu cystadlaethau, cynnig gwobrau a dyfarnu tystysgrifau. Roedd yn gyfle da i rai na chaent fanteision addysg ffurfiol fwrw eu prentisiaeth gerddorol a chael beirniadaeth ar eu hymdrechion.

Cydnabwyd cyfraniad Alaw Ddu i'r cyfeiriad yma trwy godi tysteb genedlaethol iddo, a phan gyflwynwyd hon yn Lanelli, 25 Ionawr 1887, dywedwyd ei fod

*wedi gwneyd llawer tuag at hyfforddi a chodi chwaeth y genedl mewn cerddoriaeth, ac wedi cyrhaedd ei safle uchel presenol trwy ddiwydrwydd, dyfalbarhad, ac egni diflino.*

Pwysleisiwyd ymhellach taw'r cerddorion ifainc yr oedd **Cerddor y Cymry** mor awyddus i'w helpu oedd yn bennaf gyfrifol am y dysteb.

Eto i gyd, cynrychioli hen draddodiad a wnâi Alaw Ddu erbyn diwedd y ganrif, ac roedd y byd, a byd cerdd, yn prysur newid. Wrth ei goffáu yn **Y Cerddor** yn 1904, dywed David Jenkins braidd yn grintachlyd efallai:

*Credwn pe buasai wedi rhoddi ei hun dan hyfforddiant, yr adeg y cyfansoddodd y canigau a'r rhanganau, a meistroli cynllun (form) fel ag i wneyd gwell defnydd o'r mater a'r defnydd oedd yn gynhyrchu, y buasai wedi cyrhaedd tir llawer uwch nag y darfu.*

Gwyddai Alaw Ddu yn dda, a dywedodd mewn print, fod Jenkins yn ei gyfrif ef yn 'gerddor hen ffasiwn'. Ond pwrpas David Jenkins oedd tynnu sylw at y datblygiadau mewn addysg gerddorol yng Nghymru a'r angen parhaus i ledu'r gorwelion: roedd ef ei hun wedi ennill Mus. Bac. Prifysgol Caergrawnt.

* * *

ERBYN blynyddoedd cynnar y ganrif hon roedd cyfleusterau yng ngholegau Prifysgol Cymru i gael addysg gerddorol. Er mor hanfodol bwysig oedd cyfraniad Ieuan Gwyllt ac Alaw Ddu i ddatblygiad y traddodiad amatur, poenai David Jenkins fod gormodedd o gystadlu a diffyg dychymyg yn milwrio yn erbyn datblygiad pellach.

*Mae sefyllfa addysg yn ein plith, a manteision eraill yn ein dwyn ni fel cenedl i fwy o sylw parhaus, ac yn lle cystadlu â'n gilydd, mae yn rhaid i ni ymgodymu â chenhedloedd eraill, a mantais fawr yw hyny yn y pen draw; gan y bydd yn sicrhau cynydd mwy cyson, yn ogystal a'n cadw rhag myned yn gul ac yn ymffrostgar.*

Beth, tybed, a ddywedai yr Athro David Jenkins, ac Alaw Ddu o ran hynny, pe gwyddent fod argoelion y bydd Adran Gerdd Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth yn diflannu?

## RHODDION

£8: Rhos Point Books;
£7: M.L. Jones, Caerdydd;
£5: H. ap Robert, Penarth; Miss C.Ll. Griffith, Llandegfan;
£3: R. Evans, Chester; R.G. Pritchard, Groeslon; A. Owen, Mayfield; Miss M. G. Jones, Tregarth; D.H. Rees, Felinfoel; Miss E.M. Williams, Bangor; H.A. Morris, Llangian; G.E. Evans, Southampton; Ll. Williams, Caerdydd; R. Jones, Llanfairfechan; E.P. Roberts, Blaenau Ffestiniog; J.Rh. Jones, Nefyn; R. Williams, Waunfawr; Di-enw; J.R. Rowlands, Llanfachreth.
£1: B. Jones, Caerdydd; H.I. Roberts, Rhosgadfan; G.E. Jones, Blaenau Ffestiniog.